O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 355 (Cy. 41)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhesgoed i Fellside, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *19 Chwefror 2013*

Yn dod i rym *27 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2013, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Rhesgoed i Fellside, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 27 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A494 i'r de-ddwyrain o Lanbedr Dyffryn Clwyd yn Sir Ddinbych, sy'n ymestyn o bwynt 400 o fetrau i'r dwyrain o'r fynedfa i Fferm Rhesgoed, i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at bwynt 100 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i'r eiddo preifat o'r enw Fellside.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.